CYFRES B7

amserbeibl

Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o Genesis

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Genesis 39: 1-23
a 40: 1-23

ADNOD ALLWEDDOL
Genesis 39: 21

Astudiaeth 1 Bywyd Joseff – Bywyd Anodd yn ei Arddegau

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Effesiaid 6: 13-17 Iago 1: 12-18

Ar ôl cyrraedd yr Aifft, cafodd Joseff ei werthu fel caethwas. Prynwyd Joseff gan ddyn pwysig o'r enw Potiffar a oedd yn bennaeth ar warchodwyr y palas. O'r blaen, roedd Joseff yn byw mewn pabell blaen yng nghefn gwlad. Nawr, roedd pawb o'i gwmpas yn siarad iaith ddieithr ac roedden nhw'n addoli duwiau dieithr. Mae'n siwr ei fod yn teimlo'n unig iawn. Dim ond 17 oed oedd Joseff ac mae'n siwr bod bywyd yn ymddangos yn greulon iawn heb ddim i edrych ymlaen ato ond blynyddoedd o fyw fel caethwas.

C **Pa ddau beth wnaeth Potiffar sylwi oedd yn wahanol am Joseff?**

1

2

2

Pan welodd Potiffar ei fod yn gallu trystio'i gaethwas, rhoddodd lawer o gyfrifoldeb i Joseff. Cyn hir, Joseff oedd arolygydd tŷ Potiffar. Ond, tua'r adeg hon, cafodd Joseff ei demtio i bechu. Ceisiodd gwraig Potiffar gael Joseff i bechu a, pan wrthododd Joseff, fe ddywedodd hi gelwydd amdano wrth Potiffar. Roedd Potiffar wedi gwylltio ac anfonodd Joseff i'r carchar. Er bod pethau'n edrych yn ddrwg ar Joseff, roedd Duw gydag ef trwy'r amser.

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

2

C **Ar ôl hynny, beth wnaeth ceidwad y carchar?**

2

C **Sonnir am ddau garcharor yn arbennig a oedd yng ngofal Joseff. Pwy oedden nhw?**

1
2

2

Un noson, cafodd y ddau ohonynt freuddwydion.

C **Beth oedd y breuddwydion hynny? Gallwch ysgrifennu'n fyr beth oedd y breuddwydion neu dynnu lluniau ohonyn nhw.**



4

Mae'n siwr ei bod yn anodd i Joseff ddweud wrth y pobydd y byddai'n marw cyn pen tri diwrnod ond roedd yn ddigon dewr i wneud hynny gan mai dyna roedd Duw wedi'i ddweud wrtho. Daeth esboniad Joseff o'r ddwy freuddwyd yn wir. Cafodd y pobydd ei grogi ond cafodd y trulliad (y bwtler) ei le yn ôl yn y palas.



1

C **Beth a ofynnodd Joseff i'r trulliad ei wneud?**

CHWILAIR

Rhowch gylch o gwmpas yr atebion cywir yn y Grid Geiriau ac ysgrifennwch nhw isod.

1. **Cafodd Joseff ei werthu yma. Yr _ _ __ _.**
2. **Cafodd y pobydd un o'r rhain. _ _ _ _ __ _ _ _**
3. **Galwodd gwraig Potiffar Joseff yn _ _ _ _ _ _ _.**
4. **Rhoddodd Potiffar Joseff yn y _ _ _ __ _ _.**
5. **Sawl cangen oedd ym mreuddwyd y pentrulliad? _ _ _ _**
6. **Cafodd y trulliad ei ryddhau ar ddiwrnod _ _ _ _ _ _ _ __ Pharo.**
7. **Beth gafodd eu gwasgu i gwpan Pharo?**

_ _ _ _ _ _ _.

H	D	R	H	P	R	J	A	LL
E	N	A	E	E	A	W	A	C
S	I	G	S	N	T	FF	I	A
I	W	H	E	B	R	E	W	R
E	N	E	E	L	I	P	N	CH
M	W	U	M	W	A	G	J	A
O	A	B	O	Y	T	C	A	R
B	R	E	U	DD	W	Y	D	L
H	G	N	H	D	W	O	I	D
J	L	C	J	FF	N	R	N	H

7

Erbyn hyn, roedd Joseff yn 28 oed. Bu naill ai'n gaethwas neu'n garcharor am 11 mlynedd. Byddai'n hawdd iddo fod wedi chwerwi a digalonni, ond wnaeth e ddim. Trwy fod yn gaethwas, a chael ei demtio a'i garcharu, dysgodd Joseff ymddiried yn Nuw ym mhopeth. Dydi hi ddim yn debygol y cewch chi'ch gwerthu'n gaethwas na'ch anfon i'r carchar ond fe gewch eich temtio. Peidiwch ag ildio i demtasiwn. Gofynnwch i Dduw eich helpu i wrthsefyll temtasiwn.

Enw _____

DARLLENWCH
Genesis 41: 1-45

ADNOD ALLWEDDOL
Genesis 41: 38

Astudiaeth 2 Bywyd Joseff - Swydd Bwysig yn y Palas

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Salm 105: 16-22 Actau 7: 9 a 10

Un noson, cafodd Pharo, brenin yr Aifft, freuddwyd. Yna, cafodd freuddwyd arall debyg. Roedd yn amlwg i'r brenin bod ganddynt ystyr pwysig..

C **Beth oedd y ddwy freuddwyd? Gallwch ysgrifennu amdanynt neu dynnu eu lluniau.**



Nid oedd dewiniaid na doethion y brenin yn gwybod beth oedd ystyr y breuddwydion. Gwylltiodd Pharo wrthynt. Yna, cofiodd y pentrulliad (neu'r bwtler) a oedd bob amser gyda'r brenin, yn gweini arno, am brofiad a gafodd yn y carchar ddwy flynedd ynghynt. Dywedodd wrth Pharo am Joseff a threfnwyd i Joseff ddod o'r carchar ar frys.

C **Pa ddau beth a wnaeth Joseff ar ôl dod o'r carchar a chyn mynd at Pharo?**

1
2

4

2

C **Dyma Bos Rhifau. Mae'n debyg i groesair ond yn lle rhoi llythyren ym mhob sgwâr i wneud gair, rydych yn rhoi ffigwr ym mhob sgwâr i wneud rhif llawn.**

Cliwiau ar Draws
1. Nifer y gwartheg tew + Nifer y gwartheg tenau.

3. Nifer y llythrennau yn y peth gafodd Joseff i wisgo ar ei law + y peth a gafodd i wisgo am ei wddf.

5. Nifer yr adnodau yn y darlleniad o Genesis 41 x sawl blwyddyn y bu Joseff yn y carchar ar ôl rhyddhau'r pen-trulliad.

6. Nifer y blynyddoedd o newyn x 5.



Cliwiau i Lawr
2. Nifer y tywysennau bras x nifer y tywysennau tenau.

3. Ateb rhif 2 uchod x 5.

6

C **Pa ddwy adnod sy'n dangos bod Joseff yn gwybod mai Duw oedd yn rheoli'r sefyllfa.**

ADNOD ac ADNOD

2

Roedd y brenin wedi'i blesio ag esboniad Joseff o'i freuddwydion. Roedd rhaid iddo gydnabod mai'r gwir Dduw oedd wedi rhoi ei ddoethineb i Joseff.

C **Ysgrifennwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth a ddywedodd Pharo wrth ei weision. (Adnod 38).**

2

Derbyniodd y brenin y dehongliad ar unwaith a cytunodd i bopeth a gynigiodd Joseff.

C **Beth ddywedodd Pharo wrth Joseff?**

1

C **Cafodd Joseff gyfrifoldeb mawr. Beth oedd ei swydd newydd?**

1

C **Beth roddodd Pharo i Joseff i gydnabod ei swydd newydd?**

2

Dyna i chi newid byd! O garchar anghyfforddus i fod yn Brif Weinidog gwlad fwyaf grymus y byd! Mae'n siwr na chafodd neb erioed ddyrchafiad mor ddramatig! Gallai'r swydd newydd fod wedi mynd i ben Joseff a'i wneud yn drahaus ond ni ddigwyddodd hynny gan fod Duw wedi'i baratoi ar gyfer y dasg oedd o'i flaen!

Enw _____

DARLLENWCH
Genesis
42 a 43

ADNODAU
ALLWEDDOL
Rhufeiniaid 14: 11 a 12

Astudiaeth 3 Bywyd Joseff - Gofalu am Eraill

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Salm 51 Philipiaid 2: 9-11

Dechreuodd Joseff ar ei waith yn syth. Cafwyd cynaeafau da am y saith mlynedd gyntaf. Casglodd Joseff y grawn a'i storio yn y dinasoedd. Yn y diwedd, gan fod cymaint o fwyd, fe wnaethon nhw stopio cadw cyfrif ohono.
Ar ddiwedd y saith mlynedd daeth newyn i'r Aifft a'r gwledydd eraill cyfagos fel yr oedd Duw wedi dangos ym mreuddwydion Pharo. Pan ddaeth yr Eifftwyr at y brenin i ymbil am fwyd, roedd ganddo ateb parod iddynt "Ewch at Joseff!" Roedd Joseff yn gwerthu'r grawn a storiwyd ar gyfer yr argyfwng hwn iddynt.
Roedd dros 20 mlynedd ers i frodyr Joseff ei werthu i'r Ismaeliaid. Yn awr, daeth y brodyr i'r Aifft i chwilio am fwyd.

C **Beth ddywedon nhw wrth ei gilydd oedd yn dangos eu bod yn teimlo'n euog am y ffordd y bu iddynt drin Joseff ?**
(Gweler pennod 42:21)



2

C **Ewch yn ôl i Genesis 37: 7 ac 8. Cafodd breuddwyd gyntaf Joseff ei chyflawni ym mhennod 42:6. Disgrifiwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth a ddigwyddodd**

2

C **Roedd gan dad Joseff ddau enw. Jacob oedd un. Ysgrifennwch ei enw arall yn y bylchau sy'n rhedeg ar draws y grid. Yna, llanwch enwau'r holl frodyr a enwir yn y ddwy bennod hyn yn y bylchau priodol (i lawr).**



6

Fe wnaeth Joseff adnabod ei frodyr ar unwaith ond gallwn ddeall pam na wnaethon nhw ei nabod ef. Roedd yn edrych fel Eifftiwr ac yn siarad fel Eifftiwr. Efallai bod y ffordd y gwnaeth ef eu trin yn ymddangos yn gas ar yr olwg gyntaf ond roedd rhaid i Joseff gael gwybod a oedd ei frodyr wedi newid: a oedden nhw wedi edifarhau am beth wnaethon nhw. Roedd eisiau dangos ei gariad atynt a rhoi sicrwydd iddynt ond ni fyddai'n gallu gwneud hynny petaen nhw'n dal yn genfigennus ac yn chwerw tuag ato.

C **Sut roedd y brodyr yn teimlo, a beth ddywedon nhw, pan welson nhw eu bod wedi cael yr arian a ddefnyddiwyd i dalu am y grawn yn ôl?**

1

Ni wnaeth y bwyd a brynodd y brodyr yn yr Aifft bara'n hir iawn. Cyn hir, roedd ar y teulu a'u hanifeiliaid eisiau bwyd eto.

C **Yr ail dro yr aeth y brodyr i'r Aifft, beth aeth y brodyr gyda nhw?**

2

C **Pwy aeth y brodyr gyda nhw?**

1

Penderfynodd Joseff eu croesawu i'w gartref ei hunan. Unwaith eto, roedd y brodyr yn ofnus.

C **Beth oedden nhw'n feddwl fyddai'n digwydd iddyn nhw? (Pennod 43:18)**

2

Fe wnaethon nhw ddweud wrth swyddog Joseff eu bod wedi dod o hyd i arian yn eu sachau a'u bod wedi dod ag ef yn ôl gyda nhw. Hefyd, roedden nhw wedi dod â rhagor o arian i brynu grawn. Mae'n siwr eu bod wedi cael syndod o glywed ateb y swyddog.

C **Beth ddywedodd y swyddog?**



2

Deth breuddwyd Joseff yn wir unwaith eto pan ddaeth i'w gartref.

C **Beth wnaeth y brodyr ar ôl siarad â Joseff am eu tad?**

1

Mae Duw wedi dweud rhywbeth hyd yn oed yn well wrthym am Iesu Grist. Bydd pawb yn plygu o'i flaen ef ac yn cyhoeddi mai Crist yw'r Arglwydd.

C **Darllenwch yr Adnodau Allweddol. Beth arall fydd pawb yn gorfod ei wneud ar y diwrnod hwnnw?**

1

Enw _____

DARLLENWCH
Genesis
44 a 45

ADNODAU
ALLWEDDOL
Rhufeiniaid 5: 10

Astudiaeth 4 Bywyd Joseff – Maddau'n Llwyr

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Actau 7: 12-15 2 Corinthiaid 5: 17-21

Roedd y brodyr mewn trwbwl eto! Roedd cwpan aur Joseff ar goll ar ôl iddyn nhw fwyta pryd o fwyd gydag ef. Â nhwythau wedi cychwyn am adref, daliodd swyddog Joseff i fyny â nhw a'u cyhuddo o ddwyn y cwpan.
Siaradodd Jwda â Joseff gan ddangos ei fod ef a'i frodyr wedi newid yn llwyr. Doedden nhw ddim yn trin eu brawd ieuengaf fel y gwnaethon nhw drin Joseff. Doedden nhw ddim eisiau cael gwared o Benjamin. Yn hytrach, byddai'n well gan bob un pe bai'r cwpan wedi bod yn ei sach ei hunan! Roedd yn amlwg i Joseff nad oedden nhw am esgeuluso Benjamin.



C Beth gynigiodd Jwda i Joseff ef mwyn i Joseff gytuno i ryddhau Benjamin?

_____ 1

Roedd y ffordd yn glir yn awr i Joseff ddatgelu pwy oedd e mewn gwirionedd. Roedd yr amodau ar gyfer bod yn ffrindiau eto wedi cael eu bodloni:-

1. ***Roedd eu cydwybod wedi'i brocio.***
2. ***Roedden nhw wedi cyfaddef eu pechod.***
3. ***Roedden nhw wedi edifarhau am bechu.***
4. ***Roedd tystiolaeth eu bod wedi newid eu hagwedd yn llwyr.***

Mae angen i ninnau ddod yn ôl yn ffrindiau â Duw. Mae ein holl bechodau ni yn ein gwahanu oddi wrth Dduw. Mae'n rhaid i ninnau hefyd ddilyn y pedwar pwynt uchod. Pan fydd yn wirioneddol ddrwg gennym am ein pechodau, a phan fyddwn yn ymddiried yn llwyr yn yr Arglwydd Iesu, byddwn yn dod yn ôl yn ffrindiau â Duw.

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a THANLINELLU pwy sy'n gallu ein helpu i ddod nôl yn ffrindiau â Duw.

_____ 2
_____
_____

Roedd y brodyr yn meddwl bod Joseff wedi marw ond, gan ei fod yn fyw, roedd yn gallu eu hachub rhag marw o newyn.

C Darllenwch yr Adnod Allweddol eto ac ysgrifennu YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN, ym mha ffordd y mae Joseff yn debyg i'r Arglwydd Iesu.

_____ 2
_____
_____

C **Atebwch y cliwiau isod. Ysgrifennwch yr atebion yn y GRID GEIRIAU, yn cynnwys y sgwariau lliw.**

Cliwiau i lawr

1. Ym mha ran o'r Aifft y byddai Jacob yn cael byw?
2. Dywedodd brodyr Joseff wrth ei swyddog, pe bai'r cwpan yn cael ei ddarganfod yn sach un ohonyn nhw, byddai hwnnw'n _ _ _ _.
3. Anfonodd Joseff ei frodyr i nôl eu tad a'u _ _ _ _ _ _ _ _.
4. O ba wlad oedd Joseff a'i deulu'n dod?
5. Anfonodd Joseff 20 o'r rhain at ei dad wedi'u llwytho â bwyd a phethau gorau'r Aifft.



Cliwiau ar draws

3. Sawl darn arian roddodd Joseff i Benjamin? (2 air)
4. Beth oedd swyddog Joseff wedi'i roi yng ngheg sach Benjamin? (2 air)

7

C **Rhowch y llythrennau yn y sgwariau lliw yn y drefn gywir i roi gair o'r Darlleniad o'r Beibl sy'n dangos ymateb Joseff i'w frodyr.**



1

C **Darllenwch bennod 45: 26-28 a llenwi'r bylchau isod i ddangos sut y mae'r 'Newyddion Da' a gafodd Jacob am Joseff yn debyg i'r 'Newyddion Da' rydyn ni wedi'i gael am Iesu Grist.**

Y 'Newyddion Da' am Joseff

1. Mae Joseff yn _ _ _
2. Mae Joseff yn _ _ _ _ _ _ _ __ yr Aifft.
3. Darparodd Joseff ffordd o _ __ _ _ ei deulu yn ystod y newyn.
4. Roedd Joseff eisiau i'w deulu ddod i fyw ato i'r Aifft.

Y 'Newyddion Da' am Iesu

1. Mae Iesu'n fyw.
2. Mae Iesu'n Arglwydd popeth.
3. Mae Iesu wedi darparu popeth y mae arnom ei angen i gael ein hachub.
4. Mae Iesu eisiau i ti ddod ato heddiw.

4

C **Ceisiwch ddatrys y cod isod i gael gweld y neges.**

A	B	C	CH	D	DD	E	F	FF	G	NG	H	I	J	L	LL	M	N	O	P	PH	R	RH	S	T	TH	U	W	Y
29	28	27	26	25	24	23	22	21	20	19	18	17	16	15	14	13	12	11	10	9	8	7	6	5	4	3	2	1

29 12 22 11 12 11 24 16 11 6 23 21 29 20 29 15 2
__ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __

16 29 27 11 28 23 17 25 29 25 29 5 11 29 17 18 11 14
__ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __

28 23 8 4 12 29 6 29 3. 29 27 5 29 3 RH : LL
__ __ __ __ __ __ __ __ __. __ __ __ __ __ __:__

3

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120